**Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Powys**
**2017-2022**

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn ei ardal, a diben y Strategaeth hon yw cydlynu ac adeiladu ar ymdrechion presennol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gwneud hynny;'n rheolaidd.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, o 21.1% yn 2001 i 18.6% yn 2011, ac mae'r Cyngor yn ymroddedig i newid y duedd honno.

O dan Safonau'r Gymraeg, a osodwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

> *Safon 145*
> *Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) –*
> *(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a*
> *(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).*

Diben y Strategaeth hon felly yw cwrdd â'r gofynion a osodwyd ar Gyngor Sir Powys gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg o dan Safonau'r Gymraeg, ond yn bwysicach i gyflawni dyhead ac ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg ym Mhowys, gan gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd priodol.

Ond nid yw'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar ei ben ei hun, ond yn hytrach mae'n rhan o daith, ac o ymdrechion ehangach i hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg yn y sir.

Mae hyn yn cynnwys gwaith Gweithgor Iaith Gymraeg y Cyngor, a sefydlwyd i ystyried ffyrdd i'r Cyngor, mudiadau partner a'r gymuned yn ehangach hyrwyddo'r Gymraeg a dadwneud y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Wrth weithredu Safonau'r Gymraeg, mae Cyngor Sir Powys yn ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gymryd camau i wella'r gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhan o'r Cyngor, ac i hwyluso mynediad at y gwasanaethau hynny.

Mae'r Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg yn cefnogi Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys a'i bartneriaid i sicrhau fod Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau yn cael

ei gweithredu a'i monitro, i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg o fewn meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys mudiadau o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru, er mwyn cydweithio i wella'r gwasanaethau hynny.

Mae Menter Maldwyn a Menter Brycheiniog a Maesyfed, y ddwy fenter iaith sy'n gweithredu ym Mhowys, yn gweithio yng ngogledd a de'r sir i roi cymorth a chyngor i unigolion, sefydliadau a busnesau, ac i drefnu gweithgareddau i godi proffil yr iaith Gymraeg, a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o fewn y gymuned.

Mae'r Urdd a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc yn cynnig gweithgareddau deinamig a hygyrch ledled y sir, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i gystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhowys yn ddiweddar, a bydd Eisteddfod yr Urdd yn ymweld â'r sir yn 2018. Fel dwy o brif wyliau Cymru, sy'n rhoi llwyfan i'r iaith Gymraeg, maent yn cynnig cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith trigolion, busnesau, mudiadau a rhai sy'n ymweld â'r sir.

Mae'r cyngor yn ymroddedig i ddarparu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ledled Powys, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy ffrwd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyngor, trwy gydweithio â Llywodraeth Cymru trwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif, wedi buddsoddi mewn cyfleusterau newydd ar gyfer darpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ystradgynlais (Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr) a'r Drenewydd (Ysgol Dafydd Llwyd). Mae'r awdurdod hefyd yn cynllunio buddsoddiad o'r fath yn Y Trallwng, gydag ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i agor yn y dref ym mis Medi 2017, ac yn symud i adeilad newydd sbon yn y blynyddoedd nesaf. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2017-20 yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiadau o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhannau eraill o Bowys, a bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei gyfeirio i gefnogi'r gwaith hwnnw, ble bydd hynny'n briodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg, gan gefnogi eu dysgu yn y gweithle.

Diben y Strategaeth hon felly yw datblygu ac adeiladu ar y gwaith hwn, ac i sefydlu seilwaith a fydd yn sicrhau fod mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg; i'w gwneud yn haws ac yn fwy normal i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; i ystyried fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau; a bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod ganddynt hyder yn y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol, a bydd yn gweithio i gefnogi statws ieithyddol yr ardaloedd hyn.

**Proffil Iaith Gymraeg**

Y Gymraeg ym Mhowys

Cyfrifiad 2011

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 23,990 o drigolion Powys yn siarad Cymraeg o boblogaeth o 129,083, oedd yn cyfrif am 18.6% o'r boblogaeth. Roedd hyn yn ostyngiad o'r 25,798 neu 21.1% o boblogaeth y Sir oedd yn siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2001. Mae'r darlun cyffredinol hwn yn debyg iawn i'r patrwm dros Gymru gyfan, lle cafwyd gostyngiad o 20.8% yn 2001 i 19% yn 2011.

Mae'r gostyngiad o 2.5% a welwyd ym Mhowys felly'n gyson â'r hyn a welwyd mewn siroedd eraill, megis Môn (-2.9%), Conwy (-2%), Penfro (-2.6%) a Chastell Nedd Port Talbot (-2.7%)

Mae'r darlun o fewn cymunedau'r sir yn amrywio serch hynny, gyda gostyngiad i'w weld yn y cadarnleoedd traddodiadol o fewn y Sir, er enghraifft yn Llanbrynmair (-5.1%), Glantwymyn (-5.3%), Banwy (-6.1%) ac Ystradgynlais (-7.6%) mewn ardaloedd sy'n parhau i fod â chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, gyda'r Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol. Ond gwelwyd hefyd ostyngiad mwy syfrdanol mewn cymunedau y gellid eu hystyried i fod yn agosach at y 'ffin ieithyddol', er enghraifft Llanwrtyd (-8.4%), Carno (-10.1%), Llanfihangel-yng-Ngwynfa (-11.7%), Llanrhaeadr-ym-Mochnant (-12%) a Llanwddyn (-21.6%).

Rhwng 2001 a 2011, roedd nifer y cymunedau oedd â dros 60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 3 (Banwy, Cadfarch a Llanfihangel-yng-Ngwynfa) i 1 (Cadfarch), a nifer y cymunedau gyda dros 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 11 i 7.

Ond, gwelwyd cynnydd mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg wedi bod mor gryf yn draddodiadol, er bod canrannau'r cynnydd yn yr ardaloedd hynny'n is na'r gostyngiadau mwyaf syfrdanol y cyfeirir atyn nhw uchod. Gwelwyd cynnydd yn ardaloedd Gwernyfed (+2.2%), Llanddewi Ystradenni (+2.5%), Llanelwedd (+2.7%), Tregynon (+3.1%), Glascwm (+4.1%), Betws Cedewain (+4.4%), Trewern (+4.4%) a Duhonw (+5.7%).

Mae hyn eto'n adlewyrchiad o'r darlun yng Nghymru gyfan, lle gwelwyd gostyngiad yn y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd traddodiadol megis Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin rhwng 2001 a 2011, ond darlun mwy cadarnhaol yn yr ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg wedi bod mor amlwg.

Pwysigrwydd hyn yn dangos bod modd gweld cynnydd trwy weithredu mewn modd positif.

Mae'r darlun o ran oedran y siaradwyr Cymraeg hefyd yn amrywio'n fawr oddi mewn i Bowys. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd canran y siaradwyr Cymraeg oddi mewn i wahanol grwpiau oedran fel a ganlyn:

| | Pob categori: 3 oed ac hŷn | 3 i 15 oed | 16 i 24 oed | 25 i 34 oed | 35 i 49 oed | 50 i 64 oed | 65 oed ac hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Llanfyllin | 31.7% | 52.0% | 42.4% | 31.1% | 25.5% | 23.1% | 29.7% |
| Ardal Machynlleth | 53.8% | 78.3% | 65.6% | 57.3% | 47.2% | 42.7% | 50.0% |
| Ardal Llanidloes | 17.9% | 33.4% | 24.6% | 16.7% | 12.4% | 12.9% | 16.3% |
| Ardal Llanfair Caereinion | 27.5% | 55.2% | 42.0% | 24.7% | 20.6% | 16.0% | 22.0% |
| Ardal Y Trallwng a Threfaldwyn | 12.3% | 34.2% | 16.8% | 10.6% | 6.8% | 5.6% | 7.3% |
| Ardal Y Drenewydd | 13.4% | 33.9% | 16.0% | 11.5% | 7.4% | 7.4% | 7.6% |
| Ardal Llandrindod a Rhaeadr | 12.0% | 38.4% | 24.6% | 9.6% | 7.0% | 5.0% | 4.9% |
| Ardal Tref-y-clawdd a Llanandras | 8.6% | 35.0% | 18.0% | 7.1% | 2.8% | 2.4% | 1.9% |
| Ardal Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd | 15.3% | 44.2% | 24.6% | 14.0% | 7.9% | 7.0% | 7.9% |
| Ardal Y Gelli a Thalgarth | 9.8% | 35.9% | 16.9% | 7.0% | 5.1% | 3.1% | 3.9% |
| Ardal Crughywel | 10.0% | 32.0% | 21.0% | 7.3% | 4.3% | 6.2% | 3.4% |
| Ardal Aberhonddu | 14.6% | 33.6% | 19.2% | 10.0% | 9.4% | 9.2% | 11.6% |
| Ardal Ystradgynlais | 39.0% | 44.2% | 36.9% | 29.0% | 28.7% | 36.6% | 51.6% |
| | | | | | | | |
| Powys Gyfan | 18.6% | 39.9% | 25.4% | 16.0% | 12.6% | 12.1% | 14.8% |

O gymharu ffigyrau 2011 â ffigyrau cyfrifiad 2001, mae canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 16-64 wedi aros yn gymharol gyson, ond gyda gostyngiad i'w weld yn yr ardaloedd oedd â'r cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg; o 52.8% i 49.5% yn Ardal Machynlleth, o 31.9% i 28% yn Ardal Llanfyllin, ac o 41.3% i 32.9% yn Ardal Ystradgynlais. Roedd gostyngiadau mwy syfrdanol i'w gweld yn y grŵp oedran 65+, e.e. o 16.2% i 11.6% yn Ardal Aberhonddu, o 30.1% i 22% yn Ardal Llanfair Caereinion ac o 62.6% i 51.6% yn Ardal Ystradgynlais.
Serch hynny, roedd y ffigyrau ar gyfer y grwp oedran 3-15 yn fwy calonogol ar y cyfan, ac er bod gostyniad yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg o fewn y grwp hwn mewn Ardaloedd fel Llanfyllin (60.3% i lawr i 52%) ac Aberhonddu (36.2% i 33.6%), gwelwyd cynnydd yn y canrannau yn Ardaloedd Llanfair-ym-Muallt (cynnydd o 42.9% i 44.2%), Llanfair Caereinion (51.5% i 55.2%), Y Drenewydd (31.1% i 33.9%) a Machynlleth (71.8% i 78.3%).
(Mae'r ffigyrau i'w gweld yn llawn yn Atodiad 1)

Ffactor arall i'w hystyried wrth gwrs yw'r cynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth Powys dros y degawdau diwethaf. Gwelwyd cynnydd ym mhoblogaeth y Sir o 115,038 yn 1991, i 122,457 yn 2001, ac i 129,083 yn 2011, a thra bo gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, roedd y nifer ychydig yn uwch yn 2011 na'r hyn a welwyd yng nghyfrifiad 1991 - 23,990 o'i gymharu â 23,732. Y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth sydd i'w gyfrif felly am y gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn y cyfnod hwnnw.

**Cyd-destun Cyfreithiol**

**Y Safonau Iaith**

Ar 30 Mawrth 2016, daeth Safonau Iaith Cyngor Sir Powys i rym. Ar ol cyfnod o ymgynghori ac o baratoi, cyflwynwyd 167 o Safonau gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a fyddai bellach yn cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd. Disodlwyd Cynllun Iaith y Cyngor felly a derbyniwyd y Safonau yn fframwaith newydd ar gyfer y ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu yn y pum maes gwaith isod:

1) Cyflenwi gwasanaethau Cymraeg,
2) Llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg,
3) Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg,
4) Cadw cofnodion ynglŷn a'r Gymraeg
5) Hybu'r Gymraeg.

Mae Safonau Hybu'r Gymraeg yn gofyn i'r Cyngor gynllunio ar lefel sirol i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg, trwy lunio a gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, fel a ganlyn;

*Safon 145*
*Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) –*
*(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a*
*(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).*

*Safon 146*
*Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi –*
*(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a*
*(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -*
*(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;*
*rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.*
*(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.*

Er bod y Safonau hybu yn elfen newydd i'r Cyngor, mae ymdrechion eisoes ar waith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Sir, er enghraifft trwy waith y Mentrau Iaith – Menter Maldwyn a Menter Brycheiniog a Maesyfed; Gweithgor y Gymraeg Cyngor Sir Powys; y Grwp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg; y Fforwm Addysg Gymraeg a'r gwaith a wneir o dan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ynghyd a gwaith nifer o fudiadau eraill i hyrwyddo'r Iaith. Ond bwriad y Strategaeth hon yw adeiladu ar y gwaith

hwnnw i gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sirol ac yn Genedlaethol, a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Iaith Fyw: iaith byw**

Cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 'Iaith Fyw: Iaith Byw' gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth sy'n gweithredu er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellwyd yn 'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' a gyhoeddwyd yn 2003. Mae'n amlinellu sut bydd y Llywodraeth yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid a fydd yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau y caiff y weledigaeth ei gwireddu.

I'r perwyl hwn, chwe nod 'Iaith Fyw: iaith byw' yw:
- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr Iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol

Datblygwyd y chwe maes strategol hyn yn feysydd gwaith ar gyfer y Mentrau Iaith yn ystod y cyfnod nesaf yn ogystal.

Dilynwyd 'Iaith Fyw: iaith byw' gyda 'Bwrw Mlaen', sef datganiad polisi ac amcanion polisi ar gyfer 2014-17, oedd yn cynnwys pwyslais ar

1. Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.
2. Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
3. Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
4. Yr her o newid ymddygiad ieithyddol.

**Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru**

Mae'r Strategaeth hon, a luniwyd yn 2010, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Un o brif weithrediadau'r Strategaeth oedd galw am gynlluniau gan yr Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion lleol. Lluniwyd **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Powys 2014-17** er mwyn amlinellu sut y bydd y Sir yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru ac yn cynllunio'n well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae'r Cyngor yn llunio **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** newydd ar gyfer 2017-2020, a bydd ganddi rôl gwbl allweddol yn ymdrechion y Cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Bydd amcanion y Cynllun hwnnw felly yn llunio amcanion hybu'r Gymraeg ym maes addysg y Strategaeth hon, a'r Strategaeth Hybu yn ei thro felly'n atgyfnerthu ac yn cefnogi'r Strategaeth Addysg.

**Mwy na geiriau**

Lluniwyd y Cynllun Strategol 'Mwy na Geiriau' yn 2012 gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Rhagweithiol', sef bod aelodau staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach na disgwyl i gleifion ofyn amdanynt. Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019' a darparwyd teclynnau ar gyfer cynorthwyo staff i'w weithredu.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Mae'r Ddeddf hon yn fodd o helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson, a hynny er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae saith nod llesiant i'r ddeddf. Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at y nod o sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, trwy greu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Gweledigaeth**

Targed y Cyngor trwy'r Strategaeth hon, a'r strategaethau fydd yn ei dilyn yw cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

I gyflawni hynny, rhaid bod traean o boblogaeth Powys yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

Targed y Strategaeth hon fydd adfer canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys i o leiaf lefel Cyfrifiad 2001, sef 21.1%

Nod y Cyngor yng nghyfnod y Strategaeth hon, felly, yw gosod y seilwaith ar gyfer cyflawni'r cynnydd hwnnw trwy weithredu o fewn 6 maes datblygu allweddol, yn unol â'r penawdau yn strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Nod y Cyngor yng nghyfnod y Strategaeth hon, felly, yw gosod y seilwaith ar gyfer cefnogi'r 3 thema strategol a ddynodwyd o fel strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef;

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- Chreu amodau ffafriol ar gyfer datblygu a gwarchod yr iaith.

Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio mewn 6 maes allweddol, gyda phwyntiau gweithredu ym mhob un ar gyfer sicrhau cynnydd o dan themâu strategol Llywodraeth Cymru.

Mae 6 maes gweithredu allweddol Cyngor Sir Powys fel a ganlyn;

1. Cynllunio a Pholisi Iaith

2. Normaleiddio

3. Addysg

4. Pobl

5. Cefnogi

6. Hawliau

Er mwyn sicrhau llwyddiant o fewn y 6 maes datblygu a amlinellir uchod, bydd angen gweithredu mewn rhai meysydd blaenoriaeth cyffredinol ychwanegol hefyd hyn er mwyn cefnogi'r gwaith hwnnw, sy'n cael eu hamlinellu yn adran 7 isod.

## 1. Cynllunio a Pholisi Iaith

Er mwyn sicrhau'r cynnydd hwn ym Mhowys ac yng Nghymru, rhaid i'r iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth graidd wrth lunio polisiau a chynllunio gwasanaethau, fel bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cylchoedd swyddogol a chymunedol yn cael eu gwarchod a'u hyrwyddo, ac i fanteisio ar gyfleoedd i hybu'r Gymraeg a gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr amcan felly yw prif-ffrydio'r Gymraeg, fel ei bod yn rhan ganolog o ganllunio strategol ar bob lefel.

I wneud hynny byddwn yn:

**Cynyddu defnydd o'r Gymraeg**

- Sicrhau fod gofynion ieithyddol swyddi o fewn y Cyngor yn cael eu pennu fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus o fedru defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg ar bob achlysur

**Creu amodau ffafriol**

- Asesu holl benderfyniadau a pholisiau'r Cyngor am eu heffaith ar y Gymraeg, gan ystyried cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a effaith ar staff o ran y Gymraeg.

- Sicrhau gorolwg dros gynlluniau a strategaethau'r Cyngor trwy waith Gweithgor y Gymraeg

- Sicrhau fod y Gymraeg yn destun llorweddol yn holl waith y Cyngor a'i bartneriaid

- Sefydlu'r egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bob rhan o Bowys

## 2. Normaleiddio

Mae sicrhau defnydd o’r iaith ac ewyllys da tuag ati yn hollbwysig i gefnogi’r gwaith cynllunio a datblygu, ac i gynyddu nifer y siaradwyr. Rhaid i’r iaith felly fod yn rhan normal o fywyd pob dydd ym mhob rhan o’r sir, er mwyn goresgyn ffactorau all fod yn golygu fod pobl yn gyndyn i’w defnyddio a sicrhau fod cyfleoedd i’w defnyddio’n rheolaidd.

Yr amcan felly yw sicrhau ei bod ei defnyddio yn arferol ac yn naturiol, gan osod seiliau cadarn ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr ac annog rhagor o bobl i’w defnyddio.

I wneud hynny byddwn yn:

**Cynyddu defnydd o’r Gymraeg**

- Sicrhau fod y Gymraeg yn weledol ym mhob rhan o’r Sir
- Sicrhau fod y Gymraeg yn weledol ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cefnogi gweithgareddau cymunedol fel bod y Gymraeg i’w chlywed ar lawr gwlad ledled y Sir
- Sicrhau, trwy gynlluniau grantiau’r Cyngor, a thrwy ei rym gwario o fewn cytundebau a chontractau, fod sefydliadau eraill yn rhoi llwyfan priodol i’r iaith Gymraeg trwy eu gweithgareddau
- Hyrwyddo manteision defnyddio’r Gymraeg o fewn meysydd busnes, twristiaeth, gofal ayb.

## 3. Addysg

Mae addysg yn faes allweddol ar gyfer hybu'r Gymraeg a datblygu a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys. Mae'r system addysg yn allweddol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd, boed hynny trwy ddysgu'r iaith i blant yn system addysg statudol neu trwy ddysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned.

Yr amcan felly yw cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion yn y sir i'w galluogi i'w defnyddio yn y gymuned ac yn y gweithle.

I wneud hynny byddwn yn:

**Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

- Gweithredu amcanion Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Powys 2017-2020

- Hybu a hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, p'un ai mewn ygolion cyfrwng Cymraeg penodedig neu mewn ffrydiau sy'n ffynnu mewn ysgolion dwy ffrwd

- Ymgyrchoedd marchnata penodol yn ymwneud â darpariaeth newydd a newidiadau mewn darpariaeth addysg Gymraeg

- Ymgyrchoedd marchnata yn ymwneud â datblygiadau mewn darpariaeth i hwyrddyfodiaid

- Gweithio i gynyddu'r nifer sy'n dysgu'r Gymraeg fel oedolion oddi mewn i Bowys

## 4. Pobl

Mae ar unrhyw iaith angen pobl a chymuned. Gall cymuned bellach olygu nifer o bethau, o'r ystyr traddodiadol ar sail ddaearyddol, i rwydweithiau diddordeb a digidol lle gall y bobl sy'n ei chreu fod ar wasgar. Law yn llaw ag addysg ffurfiol felly, mae lle i ddatblygu a meithrin yr iaith oddi mewn i'r cymunedau hyn, boed yn seiliedig ar unedau teuluol, ardaloedd daearyddol, grwpiau diddordeb neu gyfryngau cymdeithasol.

Yr amcan felly yw annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r meysydd hyn, i wneud defnyddio'r iaith yn naturiol a hwylus, ac i alluogi creu rhagor o siaradwyr Cymraeg.

I wneud hynny byddwn yn:

**Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

- Sicrhau cynnydd yn y gyfradd o drosglwyddo'r iaith Gymraeg oddi mewn i deuluoedd trwy hyrwyddo trosglwyddo iaith a chefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer teuluoedd ifanc

**Cynyddu defnydd o'r Gymraeg**

- Sicrhau fod ardaloedd diogel lle gall pobl fod yn hyderus o allu defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a datblygu rhagor o'r ardaloedd hynny trwy gydweithio â darparwyr gwasanaeth, canolfannau menter a mannau cyflogaeth

- Cefnogi rhai sy'n dysgu ac yn datblugu eu sgiliau Cymraeg ar eu taith o fod yn ddysgwyr i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn cynnwys cyfleoedd i ymarfer eu sgiliau mewn lleoliadau llai ffurfiol / anffurfiol

- Cefnogi a manteisio ar ddigwyddiadau megis Eisteddfod yr Urdd yn 2018 fel modd o hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal

## 5. Cefnogi

Rhaid cael seilwaith cadarn i alluogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith a meithrin ei defnydd ymhlith y bobl hynny. I wneud hynny, rhaid cefnogi ac annog grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn gweithredu yn y sir i gynnig cyfleoedd a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a hyrwyddo'r gwasanaethau hynny er mwyn annog pobl i'w defnyddio.

Yr amcan felly yw cefnogi cynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r iaith wrth i bobl ymwneud â gwahanol grwpiau, cymdeithasau a sefydliadau, a chynyddu'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg ledled y sir.

I wneud hynny byddwn yn:

**Creu amodau ffafriol**

- Cefnogi Mentrau Iaith Powys yn eu gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg oddi mewn i'r Sir

- Cefnogi gwaith mudiadau yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i ddatblygu cyfleoedd i ieuenctid y Sir trwy gyfrwng y Gymraeg

- Rhoi cefnogaeth i staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ehangu'r gallu i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg

- Cefnogi sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n gweithredu o fewn y Sir trwy waith y Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg

## 6. Hawliau

Mae cael hyder yn y ddarpariaeth yn allweddol er mwyn sicrhau fod pobl yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd yn ei sgil yn amlinellu sut y bydd Cyngor Sir Powys, ynghyd â sefydliadau eraill ledled Cymru yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn hyrwyddo ac yn hybu'r iaith.

Yr amcan felly yw manteision ar y cyfleoedd y mae'r Safonau yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg yn y sir, a sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau ac o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg ar eu cyfer, a bod hyder ganddynt yn y gwasanaethau Cymraeg hynny y mae sefydliadau yn eu darparu.

I wneud hynny byddwn yn:

**Creu amodau ffafriol**

- Gweithredu yn ôl gofynion Safonau'r Gymraeg a osodwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Safonau i Hyrwyddo a Hybu'r Gymraeg o fewn y Sir

## 7. Blaenoriaethau Cyffredinol Ychwanegol

Er mwyn sicrhau llwyddiant o fewn y 6 maes datblygu a amlinellir uchod, bydd angen gweithredu yn y meysydd blaenoriaeth cyffredinol ychwanegol hefyd hyn er mwyn cefnogi'r gwaith hwnnw.

1. <u>Mapio</u>

   Mapio'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o fewn y sir i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a'r cyfleoedd a'r gweithgareddau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

2. <u>Mesur effaith</u>

   Edrych ar ddulliau yn ogystal â chanlyniadau'r cyfrifiad i fesur effaith gweithgareddau hybu'r Gymraeg.

3. <u>Lledaenu negeseuon newyddion da</u>

   Rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau hybu'r Gymraeg yn yr ardal, ac i fusnesau a sefydliadau sydd wedi llwyddo trwy weithredu'n ddwyieithog, a lle mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'u gwaith.

4. <u>Dylanwadu ar symudiadau poblogaeth</u>

   Edrych ar gamau pwrpasol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi tai a chynllunio, gan sicrhau fod asesiadau effaith ieithyddol yn cael eu gweithredu fel rhan o'r broses gynllunio.

   Sicrhau fod newydd-ddyfodiaid yn derbyn gwybodaeth am werth a lle'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

   Edrych ar ddatblygu'r amodau a fyddai'n denu siaradwyr Cymraeg i fyw a gweithio oddi mewn i'r sir.